

# Ni fydd pandemig COVID-19 yn eich rhwystro rhag gwneud eich DofE. I'r gwrthwyneb.



Rydym yn gwybod y bydd effaith pandemig y coronafeirws yn para'n hir, gan effeithio ar eich astudiaethau, sut rydych chi'n teimlo, eich gwaith a'ch bywyd cymdeithasol. Ond mae dal modd i chi brofi'r DofE yn llawn, yn ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Mewn gwirionedd, gall gwneud eich DofE chwarae rhan fawr yn eich helpu i lywio ein 'normal newydd' – gan ganiatáu i chi ehangu eich gorwelion, gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned ac ennill sgiliau a phrofiadau a all agor drysau yn y dyfodol.

Byddwch yn cynyddu eich hyder, eich gwytnwch a'ch annibyniaeth, a all fod o fudd gwirioneddol i'ch llesiant meddyliol – a byddwch yn cadw'n heini ac yn cael hwyl gyda'ch ffrindiau hefyd.

O flogio i loncian, gwerysyla i goginio - rydych yn cael dewis eich gweithgareddau DofE, felly gallwch ddewis rhai sy'n hawdd eu gwneud o fewn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol o adref. Mae'n hawdd iawn eu newid ar unrhyw adeg, gan ddefnyddio'r ap DofE neu eDofE.

Yn ystod pandemig COVID-19, ac wedi iddo ddarfod, byddwch yn derbyn Tystysgrif Llwyddo DofE arbennig ar ôl i chi gwblhau eich adrannau Sgiliau, Gwirfoddoli a Chorfforol - yn cydnabod eich ymdrechion yn ffurfiol yn ystod y cyfnod anghyffredin hwn.

Mae ffyrdd hyblyg o gynnal alleithiau hefyd – yn ogystal â'ch profiad preswyl ar lefel Aur. Felly, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, ac mae canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu, gallwch wneud eich un chi gyda'r holl fuddion a'r atgofion y byddech yn eu cael ar unrhyw adeg arall, ac yn cyflawni eich Gwobr.

**Evch i [DofE.org/DofEWithADifference](https://www.dofe.org) a siaradwch â'ch Arweinydd i gael llwyth o syniadau, cyngor ac ysbrydoliaeth ynghylch gwneud eich DofE.**

Lawrlwythwch yr ap DofE ar gyfer ffonau  
clyfar am ddim o Google Play a'r App Store.

